

Derchafiad y Credadyn

M E W N

Cyflawnder cyfrifol.

Wedi ei osod allan mewn

P R E G E T H

Gan y Parchedig

EBENEZER ERSKINE, M. A.

A R

S A L M LXXXIX. 16.

*Yn dy Enw di gorfoeddant beunydd; ac
yn dy Gyflawnder yr ymdderchafant.*

*Newydd Gyfieithu yn ofalus o'r Saesonacg
i'r Cymraeg.*

Yn ddiau yn yr Arglwydd (meodd un) y mae
i mi Gyflawnder a Nerth; atto ef y deuir;
a chywilyddir pawb a ddigiant wrtho. Yn
yr Arglwydd y cyflawnheir, ac yr ymogo-
nedda holl Hâd Israel. *Esay xlvi. 24, 25.*

CAERF Y R DDIN,

Argraphwyd ac ar werth yno gan J. Ross, lle
cariateir Elw mawr i'r rheini'r a'u pryno i'w
roddi ymaith, neu i'w hail werthu. 1764.

[Prîs Dwy Geiniog.]

Geographia Cesariorum

WILHELM

Champions of India

newer cells below is also

Н Т Е І І І Й Я П

Castalia Publishing

Epstein, M.A. *Epstein, M.A.*

114 A

.di .xixxi M.I.A 2

Microbial Classification and Symbiosis

4.

CAERPHILLY

Padiglione D'arte



Rhagymadrodd yr Awdwr

Y Mae Cynhwysiad y Bregeth gan-lynol yn oruchel, ardderchog, a rhagorol. Nid Cywreinrwydd Ymadrodd neu Drefn amcenaïs atto, ond Ad-eiladaeth y Tlodian i ba rai y mae'r Efengyl yn cael ei phregethu; o herwydd pa ham, ni ymrysonaf a neb ar yr Ystyriaethau hynny. Ond am yr Athrawiaethau a draddodais ymma, pe ni buaswn yn anturio Jechydwriaeth fy Enaid fy hunan ar y Gwirionedd o honynt, ni anturiaswn byth eu pregethu fel Gwirioneddau Duw i eraill. Yr wyf yn cyflawn gredu mae un Achos mawr pa ham y mae'r Efengyl mor lleied ei Llwyddiant yn ein Dyddiau yw, o herwydd fod ein Hymadroddion yn y cyffredin yn cael ei trefnu mor lleied tuagat dynnu i lawr ein Cyfiawnderau ein

ein hunain, a derchafu Cyflawnder Crist, fel yr unig Seilfaen a osododd Duw yn Seion. Y mae ein Pregethau yn colli eu Harogl a'u Heffaith pan bo hyn yn cisiau; ac yr wyf yn gostyngedig feddwl fod yr Apostol mawr *Paul* yn meddwl yr un Peth, *Rhuf.* i. 16, 17. *Nid oes arnaf gywilydd o Efengyl Crist, oblegid Gallu Duw yw bi er Jechydwriaeth i bob un og fydd yn credu.* Ac oes gofyn neb, Pa foddyd y mae'r Efengyl y cyfryw Allu er Jechydwriaeth? Y mae efe ei hun yn buan ateb, *Canys ynddi bi y dadcu dir Cyflawnder Duw o Ffydd i Ffydd.*

Eb. Erskine.

Yn ddyfodol yw'r gwaith o Gwir y Caa Yn wydd i. adnabod adnodd Llais e did ac y fraint corphi

Crist,
nw yn
colli
yn yn
fedd-
nedd-
Nid
obleg-
riaeth
gof-
ryl y
mae
ldi bi
ydd i
bwv
Y
d
d in
ne.
n
Y
am
bis
d o
fiad
EII

Derchafiad y Credadyn

M E W N

Cyflawnder cyfrifol.

SALM LXXXIX. 16.

*Tn dy Enw di gorfoeddant beunydd; ac
ym dy Gyflawnder yr ymdderchafant.*

✿✿✿✿✿ Mae'r Salmydd wedi heliath glod-
fori a chanmawl Duw Israel yn
Nechreuaed y Salm hon, yn
myned rhagddo o'r 15fed ad-
nod o'r Salm i ddangos Ded-
wyddwch Israel Duw, neu'r
Gwir grediniol, o ba rai yr oedd Israel yn ol
y Caawd yn Gyfod.

Yn awr y mae Israel Duw yn Bobl dded-
wydd mewn amryw Ystyriathau. Yn

1. O herwydd eu bod wedi cael y Fraint o
adnabod yr Hyfrydlais; dechreuaed y 15fed
adnod: Y mae Llais hyfryd gan yr Efengyl;
Llais o Heddwch, Llais o Fwyd, Llais o Rydd-
died ac Jechydwriaeth. Yr ydych oll yn cael
y fraint o glywed y Llais hyn a'ch Cristiau
corphorol; ond y Cwefiwn mawr yw, a

A

ydych

ydych yn ei 'adwaen, yn ei ddyall, ac yn rhoi Ffydd Dderbyniad iddo. Och, fe elli'r parhau Galarnad *Esaiah* yn rhy gyfawn mewn perthynas i'r rhan fwyaf o Wrangawyr yr Efengyl, *Par y a gredodd ein Hymadrodd ni?* Yn

2. Y mae *Israel* Duw yn Bobl ddedwydd, o herwydd mae yn *Llewyrch ei Wyneb y rhodiant hwy*, diwedd y 15fed adnod. Y maent wedi eu breintio a Dadcuddiadau neilltuol o'i Gariad, yr hyn sy'n gosod mwy o Llawenydd yn eu Calon, na phan yr amlhâodd eu hîd, eu Gwîn, a'u Holew. Yn

3. Er cyfarfod a mawr Ddigalondid oddiwrth y Bîd, etto y mae ganthynt *Sail i orfoleddu yn eu DUW*. *Yn dy Enw di y gorfoleddant beunydd*; a *Diolch i Dduw*, medd yr Apostol, yr hwn sy'n gwneuthur i bob Amser i orfoleddu yn Nghrist. Yn

4. Y mae eu Dedwyddwch yn ymddangos yn eglur yn hyn, eu bod wedi eu breintio a'u derchafu uwchlaw erzill, trwy'r Wisc ddi-frycheulyd o Gyflawnder Machniydd, fel y gwellch yng Eiriau'r Testyn, *Yn dy Gyflawnder yr ymdderchafant*.

Ym. mha ryw Eiriau ni allwn yn fyrr ddal Sylw, yn

Gyntaf, ar Gyfodiad y Credadyn, y mae wedi ei dderchafu. Fe ein darostyngwyd i Uffern isaf yn yr *Adda* cyntaf, fe fyrthiodd y Goron oddiar *ein* Pen; ond yn Nghrist, yr Ail *Adda*, fe ein derchafwyd drachefn, ie, fe ein derchafwyd cuwch a'r Nefoedd, canys yr ydym yn eistedd gydag ef yn y nefolion Leoedd, medd yr Apostol. Dyma ddir-gwelwch

gelwch anghredadwy i Fyd dall, fod y Credadyn, yr hwn sydd yr awr hon yn eistedd ar Dommen y Ddaear, ar yr un pryd yn eistedd yn y Nefoedd yn Nghrist ei Ben a'i Gynhyrchiolwr gogoneiddus; ac etto di-dadl Wirionedd yw, ein bod yn eistedd gydag ef yn y nefolion Llegedd, Eph. ii. 6. Ie, ynddo ef, Y mae yn llywodraethu'r Cenhedloedd a Gwialen Haiarn, yn gorfoleddu, ac yn fathru ar holl Alluoedd Uffern. Yn

Ail, Y mae gennym Sail Anrhydedd a Derchafiad y Credadyn, *Yn dy Gyfiawnder di.* Nid mewn un Cyfiawnder o'i eiddo ei hun: Nage, y mae yn llwyr ymwrithod ag ef, gan ei gyfrif yn Dom, yn Golled, Brattiau budron, ac Ymborth Cwn: Ond yn dy Gyfiawnder di, hynny yw, Cyfiawnder Duw; fel ag y mae'r Apostol yn ei Alw, Rhuf. i. 17. *Y Cyfiawnder sydd o Dduw trwy Ffydd, Phil. iii. 9.*

Y mae Cyfiawnder Duw yn cael ei gymmeryd mewn amryw Ystyriaethau yn yr 'Scrythyrau. Weithiau am anfeidrol Berffeithrwydd a Phurdeb ei Natur, *Sal. xi. 7.* Yr Arglwydd cyfawn, a Gâr Gyfiawnder. Weithiau am y Cywirdeb a'r Cyfiawnder cyfrannol hwnnw ag y mae yn ei arferyd yn Llywodraeth y Bîd, yn gwobrwy o'r da, ac yn cosbi Drwg-weithredwyr, *Salm xcvii. 2.* Cyfiawnder a Barn yw Trigfa ei Orseddfaingef. Weithiau am ei Wirionedd a'i Ffyddlondeb, yn cyflawni ei Addewidion, neu ei Fygwythion, *Salm xxxvi. 5, 6.* Dy Drugaredd sydd hyd y Nefoedd, a' th Wirionedd hyd y Cymylau, fel Mynyddoedd cedyrn y mae dy Gyfiawnder. Weithiau am y Cyfiawnder

perffaith hwnnw a ddugodd Crist Mab Duw, fel ein Machniydd a'n Cyfryngwr ni i mewn, trwy ei Ufudd-dod i'r Ddeddf, a'i Farwolaeth ar y Groes, er Cyflawnhâd i Bechaduriaid euog; ac fel y dywedais, se elwir hwn yn synych yn Gyflawnder Duw, ac yn yr Ystyr hyn yr wyf yn ei gymmeryd ymma yn y Testyn, *Yn dy Gyflawnder yr ymddorchafant.* Y mae'r Athrawiaeth yn agos yr un Peth a'r Geiriau eu hunain,

Athrawiaeth.

Mae yn neu trwy Gyflawnder Crist, y mae y rhai Crediniol yn cael eu derchafu. Neu fel hyn, Pa Anrhydedd neu Ddedwyddwch bynnag y mae y rhai Crediniol yn cael eu derchafu iddo mae Cyflawnder Crist yw'r Achos a'r Seilfaen o hono: Perffaith Ufudd-dod, a haeddediccaf Farwolaeth y byth fendigedig Fachniydd yw'r achos o'r Cwbl,

Hon yw'r Seilfaen a osododd Duw yn Seion, ar ba un y mae ein holl Ddedwyddwch mewn Amser, a thrwy bob Tragwyddoldeb wedi ei adeiladu. Nid oes gennyf Amser i bentynu Testynau o'r Scrythurau er Cadarnhâd i'r Athrawiaeth, ni allaf aros ychwaith ym hir amri, gan fed gennyf Waith mawr i fyned trwyddo yr holl Ddýdd hwn. Yr hyn oll a wnaaf,

wnaf, fydd yn y Lle cyntaf, gosod ychydig Bethau ger bron, mewn Perthynas i'r Cyflawnder hwn, fel y galloch iawn ddyall y Natur a'r Angenrheidrwydd o hono. Yn Ail, dangos ychydig o'i Briodoliaethau, er eglurhau ei Ardderchawgrwydd. Yn Drydwydd, llesaru ychydig am Dderchasiad y Credadyn trwy Rinwedd y Cyflawnder hwn. Yn Bedwarydd, Cynahwyso.

Am y Peth cyntaf, I osod ychydig Bethau ger bron mewn Perthynas i'r Cyflawnder hwn, er eglurhau ei Natur a'i Angenrheidrwydd.

Yn

1. Chwi ddylech wybod i Dduw wneuthur Dyn yn Greadur rhefymol, cymawys i Lywodraeth foefol, a rhoddi Cyfraith iddo gyfattebol i'w Natur i lywodraethu ei hun wrthi yn y Dyledswyddau oedd yn rhwymedig arno i'w Greswdwr mawr. Fe roddwyd y Gyfraith honno i Ddŷn mewn Ffurf o Gyfamned, gydag Addewid o Fwyd ar yr Ammod o berffaith Ufudd-dod, a Bygythiad o Farwolaeth o herwydd Anufudd-dod, Gen. ii. 17. Fel hyn yr oedd Pethau yn sefyll rhwng Duw a Dyn mewn Stat o Ddiniweidrwydd.

2. Fe ddæth Adda, a'i holl Hiliogaeth ynddo, a chydag ef, trwy dorri'r Cyfammod hwn yn ddarostyngedig i'r Felldith a'r Gosbedig-aeth o hono; felly fel ac yr oedd Jechyd-wriaeth i ni yn beth llŵyr amhefisbl, nes cafaï Cyflawnder ei fodloni, a'r Ddeddf dorredig ei hadgyweirio; y mae Cyfraith a Chyflawnder Duw yn llym iawn, yn sefyll yn bendant am gyflawn Fodlondeb ac Adgyweiriad, heb hya yr eodd Pyth y Nefoedi i gael

gael eu caead a'u bollto yn dragywydd yn erbyn Dyn a'i holl Hiliogaeth. Yr oedd Cleddyf tanllyd Cyfiawnder yn troi ymhob Ffordd i'n cadw rhag dyfod i'r Baradwys fry.

3. Pan oedd Dyn yn yr Amgylchiadau hyn heb ddim i ddisgwil ond syrthio yn fythol Aberth i Gyfiawnder dwyfol, tragwyddol Fab Duw, o herwydd ei fawr Gariad a'i Dosturi at Bechaduriaid andwyol a neidiodd i mewn fel Cyfryngwr a Machniydd, gan gymmeryd nid yn unig ein Natur, ond hefyd ein Ddeddfle ni, gan sefyll trosom ac yn ein Lle; trwy ba ymrwymiad fe syrthiodd yr holl Ddeddf arno ef yn ei Phoenau a'i Gorchymwynion, felly y daeth yn rhwymedig i gyflawnu Gorchymwyn, ac i ddioddef Melldith y Cyfammod Gweithredoedd yr hwn a dorrafom ni. Ac ymma, ar y Ffordd, cymmwys yw rhoi i chwi i wybod, mae Gweithred o ryfeddol Râs yn yr Arglwydd *Jehovah* oedd cymmeryd Machniydd yn ein Lle ni, pe buasai yn sefyll ar Gyfiawnder a Llymder ei Gyfraith, fe allasai ofyn Bodlondeb personol, heb ganiatau Bodlondeb Machniydd, felly fe fuasai *Adda*, a'i holl Hiliogaeth yn syrthio tan Ergyd Cyfiawnder dialeddol tros bob Tragwyddoldeb. Ond Gogoniant i Dduw yn yr uchelder, yr hwn nid yn unig a ganiataodd Fachniydd, ond hefyd a'i darparodd, ac a osododd gymorth ar un cadarn. Yn

4. Fe ddarfu i Jesu Grifft, tragwyddol Fâb Duw, yr hwn yn Nghyflawnder yr Amser a wnaethpwyd o Wraig, tan y Ddeddf, fel ein Machniydd ni, weithredol a pherffaith gyflawnu holl Ammodau'r Cyfammod o Weithredoedd

redoed
hynny
Orchy
dithio
i mew
iawnh
hwn y
yn ca
gweith
Ddedd
y mae
lwyr-i
5.
bodlon
mewn
Fyd
Duw
y Cyf
Dydd
Ffydd
ger br
Cyfeil
iawnh
etto
wolae
phawl
wîr,
oedd
holl E
Nghri
y mae
hau c
Gymb
amho
dorrec

redoedd yn ein Natur, ac yn ein Lle ni: hynny yw, mewn Gair, fe ufuddhaodd i holl Orchymmynion, ac fe ddioddefodd holl Fell-dithion y Ddeddf, a thrwy hynny fe ddugodd i mewn berffaith Ddeddf-Gyfiawnder, er Cyfiawnhâd Pechaduriaid euog ger bron Duw: a hwn yw'r Cyfiawnder trwy yr hwn yr ydym yn cael ein derchafu; trwy ei Ufudd-dod gweithredol a dioddefol efe a fawrhaodd y Ddeddf, ac a'i gwnaeth yn anrhŷdeddus; ac y mae'r Arglwydd yn datcan ei fod wedi ei Iwyr-fodloni yn ei Gyfiawnder ef. Yn

5. Er i Jesu Crist ufuddhau i'r Gyfraith, bodloni Cyfiawnder, a thrwy hynny dwyn i mewn Ddeddf-Gyfiawnder tragwyddol, i'r holl Fyd etholedig; etto nid yw Etholodigion Duw byth yn cael eu derchafu trwy Rinwedd y Cyfiawnder hwn, hyd nes y caffont mewn Dydd o Nerth eu dwyn i'w dderbyn trwy Ffîdd, ac i ymofswng iddo er Cyfiawnhâd ger bron Duw. Yr ydym yn ymwrthod a'r Cyfeiliornad Gwrth-ddeddfaidd hynny o Gyfiawnhâd gweithredol er Tragwyddoldeb, nac etto Cyfiawnhâd o ran Ffurf er Amser Marwolaeth Crist. Yr ydym yn cyfaddef, gyda phawb Difeinyddion Protestanaidd iachus, yn wir, mae Pŵrpas Duw er Tragwyddoldeb oedd cyfiawnhau ei Etholedigion, a bod yr holl Etholedigion yn cael eu cynhyrchioli yn Nghrist yn ei Ufudd-dod i Farwolaeth; ond y mae eu bod wedi eu gweithredol gyfiawnhau cyn eu Troedigaeth, neu cyn y caffont Gymhwysiad trwy Ffîdd o Waed Crist yn amhossibl; canys y mae Coll-farn y Ddeddf dorredig yn sefyll mewn Grym yn waftadol

yn

yn eu herbyn, hyd nes gweithredol gredont yn Mâb Duw; canys yr hwn nid yw yn credu a ddamniwyd eisioes: A pha fod y gallant fod yn gyfawn ac yn ddamnedig ar yr un pryd? Hyd nes credont, y maent yn Blant Digofaint megis eraill. Yn

6. Y mae'r Cyfawnder hwn o eiddo 'r Machniydd yn cael ei drosglwyddo i ni trwy Gyfrifiad, fel ac y mae yn eglur iawn oddiwrth lawer o Scrythyrau, fel Rhuf. iv. 6, 11, 12, 23, 24. Y mae Duw yn cyfrif yr hyn a wnaethpwyd gan ein Machniydd yn ein Lle ni, i ni; fel ag y mae ei Cyfawnder ef yn dyfod mor briodol eiddo i ni er Cyfawnhâd ger bron Duw, a phe buaem ni yn ufuddhau'r Gyfraith, ac yn bodloni Cyfawnder yn ein Personau ein hunain. Yn awr, y mae 'r Cyfrifiad hwn o Gyfawnder y Machniydd i ni yn rhedeg yn bennaf ar y ddau neu'r tri Pheth hyn. Yn

1. Ar y Traws-weithrediad a'r cyngor tragicwyddol rhwng y Tâd a'r Mâb, lle y mae Mâb Duw yn cael ei ddewis, a'i sefydlu yn Fachniydd i Fyd etholedig: dyna'r pryd y rhoddodd efa ei Law i'r Tâd, gan ymrwymo talu eu holl Ddyled ag Aur coch ei Waed; gan ddywedyd, "Aberth ac Offrwm ni's " mynnai; wele fi yn dyfod, gan hoffi " gwneuthur dy Ewyllys di o Ddaw. Yn

2. Y mae wedi ei feilfaenu ar Gyfrifiad gweithredol o'n Pethodau ni iddo ef. "Yr " Arglwydd a osododd ein Hanwireddau ni " oll arno ef." Y mae hyfryd a bendigedig gyfnewid Lleoedd rhwng Crist a'i Bobl, y mae efe yn cymmeryd ein Pethod a'n Hanguhyfawnder

hyfiawnder ni, fel y byddai i ni i gael eis
gwifeo a'r Wisc wehe ei. Gyfiawnder ei, a Cor.
v. 21. "Canys yr hwn ni adnabu Bechod a
"wnaeth efe yn Bechod trosom ni, fel eis
"gwnelid ni yn Gyfiawnder Duw ynddo ei."

3. Y mae'r Cyfrifad hwn yn cael ei seith-
faenu ar yr undeb dirgelaidd sy rhwng Crist
a'r Credadyn. Pales y mae'r Enaid tlawd
mewn Dydd o Neth yn ymroddi i gefnicio
yr Arglwydd Iesu trwy Freichiau Ffylld, y
mae Crist ac yntef y Funud honno yn myned
yn un Corph. Y mae yn dyfod yn Gangen
o'r wir Winywydden, yn Aelod o'r Corph
hwnnw ag y mae Crist iddo yn Ben gogen-
eddus o Dderchafiaeth, Effeithiolaeth a Llyw-
odraeth. Gwedj ei uno fel hyn a Christ, y
mae'r Wisc wen laes o Gyfiawnder 'y Cyb-
ryngwi yn cael ei gwisgo am dano, trwy'r
hyn y mae efe nid yn unig yn cael ei rydd-
hau oddiwrth Ddamnedigaeth; ond hefyd ei
sefydlu tros byth yn gyfawn ger bron Duw,
i Cor. i. 30. *Eithr yr ydych chi i o hana of*
ying Nghrist Iesu, yr hwn a wnaethpwyd i ni
gan Dduw yn Ddoethineb, yn Gyfiawnder,
yn Sandeiddrwydd, ac yn Brynedigaeth.

Yr ail Ben cyffredinol oedd, dangos ychyd-
ig o Briodoliaethau'r Cyfiawnder hwn ym-
mha un y mae'r Credadyn yn cael ei dderch-
afu, lle'r ymddengys ei Ardderchawgtwydd.
Ac yn

1. *Cyfiawnder perffaith a difrychrau ym*
mhob Ffordd ydyw: a pha fodd y dichon fod
yn amgen, gan mae Cyfiawnder Duw yw?
Y mae mor berffaith, fel ac y mae'r Ddeddf
sanctalidd nid yn unig wedi cael ei chyflawnu,
B ond

ond hefyd wedi cael ei mawrhau a'i hanrh-y-deddu trwyddo, *Esai.* xlvi. 21. Y mae 'r Cyflawnder hwn mor berffaith fel na ddic'hon Llygad llym Cyflawnder dwyfol gael dim o'r Bai na'r Diffyg lleiaf ynddo: ie, y mae Cyflawnder dwyfol wedi cael ei lwyd fodloni mor gyflawn ynddo, fel ac y mae Duw yn llefaru am yr Enaid sy wedi ei wi'co ag ef, fel pe b'ai mewn Stat o Ddiniweidrwydd, ac yn berffaith iddi Bechod, *Ti all ydwyt deg sy Anwylyd, ac nid oes ynot Frycheuyn.* " Ni wêl efe Anwiredd yn *Jacob*, na Thrawsedd yn *Israel*. Yn wir, y mae yn gweled llawer o Frychau yn y Credadyn, a'i ystyried ynddo ei hunan; ond nid oes ynddo un Brycheuyn a'i ystyried tan Orchudd y Cyflawnder di-frycheulyd hwn. Yn

2. Cyflawnder tra haeddiannol ydyw. Y mae Pryniad Enaid mor werthfawr, fel ag y buasai byth yn golledig, oni buasai ei brynu a'r Cyflawnder hwn: Ni allasai Arian ac Aur a'r cyfryw Bethau llygredig byth ei brynu. Gosodwch y Nefoedd a'i holl Ogoniant yn y Clorian gyda'r Cyflawnder hwn, ac ni byddant ond fel Plufyn mewn Cymmariaeth iddo. Y mae 'r Nefoedd yn cael ei galw yn Etifeddiaeth bwrcasedig, a'r Cyflawnder hwn yw'r Gwerth a'i pwrcasodd. Y mae 'r cyfryw Haeddiant ynddo, fel ac y mae yn dileu y Pechodau duaf eu Lliw, ac yn gwaredu Byd cyfan o Etholedigion rhag Digofaint a Diniestr. Ie, y mae 'r cyfryw dufewnol Rinwedd ynddo, fel pe trefnafit felly, y mae yn ddigonol i brynu holl Hiliogaeth *Adda*; ie Miloedd o Fyd- oedd o Angylion a Dyonion, ac ystyried eu

Bod

Bod a'u
hynny
ydwriae
3. C
yw: n
duriaid
a'n Cyf
yr Apo
efe yn
Droedi
digaeth
gyda'r
stadiw
Ddini
y difry
fel Ma
naill or
fiawnd

4. C
addurn
enychu
a orfo
Gwisc
tell Cy
wisco
ferch a
oedd v
anau,
io fel
ag Ar

5. C
mae y
Yn w
Bod
hyd n

Bod a'u Cwym. O gyda pha Hyder gan hynny y dichon Enaid tlawd anturio ei Jechydwriaeth dragwyddol ar y cyfryw Sail! Yn

3. Cyflawnder anghyfartal, di gyffelyb ydyw: nid oes un Cyflawnder ymhlih y Creaduriad a ellir ei gyftadlu ag ef. Cyftadlwch ef a'n Cyflawnder deddfol ein hunain, ac y mae yr Apostol *Paul* yn dywedyd i ni, nad oedd efe yn cyfrif ei Gyflawnder Phariseaidd cyn ei Droedigaeth, ie, ei Ufudd-dod wedi ei Droedigaeth ond fel Tom, a'i ofod yn y Clorian gyda'r Cyflawnder hwn, *Phil.* iii. 8. Cyftadlwch ef a Chyflawnder *Adda* yn ei Siat o Ddiniweidrwydd, neu ynteu a Chyflawnder y difrycheulyd Anghylion, ac nid ydynt ond fel Mageiod i'w cyftadlu a'r Haul: Nid yw'r naill ond Cyflawnder Creadur, ond y llall Cyflawnder Duw yw. Yn

4 Cyflawnder ydyw ag sy 'n harddu ac yn addurno'r Enaid, *Ezai.* lxi. 10, *Gan lawenychu, y llawenychaf yn yr Arglwydd, fy Enaid a orfoledda yn fy Nuw, canys gwistodd fi a Gwiscoedd Fechydwriaeth, gwistodd fi a Mantell Cyflawnder, megis y mae Priodfab yn ym-wisco a hardd *Wisc*, ac fel yr ymdrwia *Priodferch a'i Thlyfau*.*

Y mae 'r Enaid tlawd ac oedd wedi duo wrth orwedd rhwng y Crochanau, pan wiscer ef a'r *Wisc* hon yn discleirio fel Colommen gwedi gwisco ei Hadenydd ag Arian, a'i Phlu ag Aur melyn. Yn

5 Cyflawnder tragicwyddol ydyw, fel ag y mae y Prophwyd *Daniel* yn ei alw Pen. ix. 24. Yn wir nid oedd y Cyflawnder hwn mewn Bod ond ym Mhwrpas ac Addewid Duw, hyd nes ymddangosodd Crist yn weithredol

yn ein Natur ni, a bodloni Gorchymwynion y Gyfraith, a Gofynion Cyflawnder; pa fodd bynnag, ar gyfrif y Bod hwnnw ag oedd iddo ym Mhwrpas ac Addewid Duw, yr oedd yn effeithiol er Cyflawnhad i holl Seintiau yr hen Destament. Y mae i Cyflawnder hwn, gan hynny meddaf yn Gyflawnder tragwyddol, o ran ei Drefnhad a'i Barhad. Y mae ei Drefnhad yn cymmeryd ei Hanfod oddiwrth yr Hedd-gyngor hwnnw yn hen Ddyddiau Tragwyddoldeb: canys fe enneiniwyd (yn ol y Saeson a g fe osodwyd i fynu) y Machniydd er Tragwyddoldeb. Ac fel ag y mae yn dragwyddol yn ei Wraidd, felly hefyd y mae yn ei Ffrwyth; canys ar gyfrif y Cyflawnder hwn y caiff yr holl Seintiau eu cymmeradwyo yn Nydd Barn, ac ar gyfrif hwn y cant eu gogoneddu yn y Nefoedd tros bob Tragwyddoldeb. Hyn fydd bythol Gân y Gwareigion, "Efe a'n caredd ni, ac a'n "golchodd ni yn ei Waed ei hun. Yn

6. Cyflawnder ydyw ag fydd yn mawr freintio ac yn dercha'u yr Enaid, *Solomon ya Dihar.* 25. 5. Yn son am Gywirdeb mewn Gweimido gaeth Cyflawnder gwlad aidd, yn dywedyd fod y cyfryw Gyflawnder a hwnnw yn derchafu Cenedl. Yr wyf yn sicr fod hyn yn wir mewn perthynas i Gyflawnder cyfrisol Jēsu Grist, fel y gwelwch yn fy Nhefryn, Yn dy Gyflawnder yr ymdderchafant. Y mae hyn yn fy arwain at y

Y Trydydd Peth cyffredinol yn y Drefn, yr hyn oedd Derchafiad y Credadyn trwy Rinwedd y Cyflawnder hwn. Ac yma mi geisiaf yn syrddangos, yn gyntaf, pa Ddryg-

au y mae yn derchafu'r Credadyn uwch eu llaw. Yn ail, pa Ddedwyddwch ac Anrhydedd y mae'r Credadyn yn cael ei dderchafu iddynt. Yn

Gyntaf, Pa Ddrygau y mae'r Credadyn yn cael ei dderchafu uwch eu llaw.

1 Y mae yn cael ei dderchafu uwchlaw'r Ddeddf fel Cyfammod Gweithredoedd; ie, uwchlaw gorchymynynol a chondemniol Awdurdod y Cyfammod hwnnw. *Nid ydych tan y Ddeddf medd yr Apostol, eithr tan Ras, Rhu. 6. 14.* Ac oes nad ydynt tan, y mae yn canlyn eu bod wedi eu derchafu uwchlaw iddi. Yn wir nid ydynt, ac ni allant byth fod uwchlaw iddi fel Rheol Dyledswydd: *Ni ddichon un Creadur gael Rhyddhad oddiwrth y Rhwymedigaeth i roddi Usudd-dod i Ddeddfau ei Greawdwr mawr; y mae'r Credadyn yn rhwymedig mewn modd neilltuol i usudd-hau Deddf ei Greawdwr yn Llaw Cyfryagwr.* Ond ac ystyried y Ddeddf fel Cyfammod Gweithredoedd, yn gofyn perffaith Usudd-dod fel Ammod o Fywod, neu yn bygwth Marwolaeth dragwyddol o herwydd Anusudd-dod, y mae'r Credadyn wedi ei wir dderchafu uwch ei llaw trwy Gyflawnder Crist. Ac oes cynnig y Ddeddf un Amser ei ddwyn i Gaethiwed, cadarn safed yn y Rhydd-did a'r hon y rhuddhaodd Crist ef. Trwy Ffyll yn Nghrist y mae bwrw allan y Wasanaeth-ferch *Hagar* a'i holl feibion o Ofnau a Dychrynsfeydd deddfol, *Gal. 4. 30.* Os clyw Credadyn yn Nghrist un Amser Daranau a Melldithion Mynydd *Ebal* neu *Sinai*, nid oes iddo un Achos i frwythu, canys y mae Crist trwy

trwy ei Gyfiawnder ef wedi ei lŵyr-brynu oddiwrth y Ddeddf. "Canys ni ddaeth efe "at y Mynydd sydd yn lloisci gan Dân, a "Chwmmwl a Thywyllwch a Thymestl; "ond i Fynydd Seion, ac at Jesu Crist Cyf- "ryngwr y Cyfammod newydd, ac at Waed "y Taenelliad, yr hwn sydd yn llefaru Peth- "au gwell na'r eiddo *Abel*." Y mae'r Credadyn wedi marw i'r Ddeddf trwy Gorph Crist, wedi priodi â gwell Gŵr, sef yr hwn a gyfododd oddiwrth y Meirw. Yn

2. Y mae'r Credadyn trwy'r Cyfiawnder hwn yn cael ei dderchafu uwchlaw'r Bŷd, *Dat. 12. 1.* Y mae'r Wraig wedi ei gwisco â'r Haul, a'r Lleuad tan ei Thraed; yn dangos nid yn unig Ddyledswydd y Credadyn i ehedeg tua'r Nefoedd yn ei Serchiadau, ond hefyd ei Fraint yn Nghrist yn sathru ar Sorriant ac ar Weniaith y Bŷd isod hwn yr un Ffunud; fel y dywedodd yr Apostol, "Hon "yw'r Oruwchafiaeth sydd yn gorchfygu'r "Bŷd, sef ein Ffydd ni." Yn

3. Y mae'r Credadyn trwy'r Cyfiawnder hwn yn cael ei dderchafu uwch law Gallu a Malais *Satan*. Yn wîr tra bo'r Credadyn y tu ymma i'r *Jorndon*, fe dilyn y Diafol ef a'i Biccellau tanllyd, ac fe wna ei eithaf i beri iddo syned i'r Nef yn gloff; ond trwy Rinwedd y Cyfiawnder hwn, sef, Bywyd a Marwolaeth ein byth fendigedig Fachniydd y mae'r Diafol wedi ei ddiarfogi a'i ddinistrio hefyd; y mae Siol yr hên Sarph wedi ei sigo, canys trwy Farwolaeth, fe ddinistriodd yr hwn oedd a Nerth Marwolaeth ganddo, sef y Diafol. Ac y mae'r Credadyn trwy

Ffydd

Ffydd yng Waed ac Ufudd-dod yr Arglwydd Iesu yn fathru *Satan* tan ei Draed; gorchfygasant ef trwy Waed yr Oen. Yn

4. Y mae'r Credadyn trwy'r Cyflawnder hwn yn cael ei dderchafu uwchlaw Angeu. Fe allai dy fod mewn Caethiwed trwy Ofn Angeu; fod dy Galon bron llewygu a methu wrth edrych ar Ymchwydd y *Jorddonen* hon; ond edrych ar y Cyflawnder hwn, a thi a gefi dy dderchafu uwchlaw Ofn Angeu: er dy fod yn ddarostyngedig i'w Ergid, etto, yr wyt trwy Rinwedd y Cyflawnder hwn wedi dy waredu oddiwrth ei Gelyn. Pa beth yw Colyn Angeu? Pechod yw. Fe ddarfu i Jesu Grist *ddibennu Camwedd, a felio, neu orphen Pechod*, trwy ddwyn i mewn Gyflawnder tragwyddol. O herwydd pa ham di elli dreiglo'r Gair hwnnw fel Tammaid melys tan dy Dafod, *Hof. 13, 14. O law y bedd yr achubaf hwynt, oddiwrth Angeu Gwaredaf hwynt, byddaf Angeu i ti, O Angeu, byddaf drangc i ti y Bedd.* - Yn

5. Y mae'r Credadyn trwy'r Cyflawnder hwn yn cael ei dderchafu uwchlaw pob Achwyniadau pa bynnag, ac o ba Le bynnag, *Rhuf. 8. 33.* Y mae'r Apostol yno yn Gofyn gyda phob hyder, *Pwy a rydd dim yn erbyn Etholodigion Duw?* Y mae'r Gofyniad yn gyffredinol yng wyneb phawb Cyhuddwyr; fel pe buasai yn dywedyd, A oes neb yn y Nef, y Ddaear, neu Uffern, a rydd dim yn eu herbyn? Y mae hefyd yn gyffredinol mewn Perthynas i'r cyhuddedig, yn cynnwys holl Etholodigion Duw, ym mhllith pa rai y mae rhai o'r Pennaf o Bechaduriaid, ag anadodd

Iodd erioed ar Ddaear Duw. Y mae hafyd yn gyffredinol mewn perthynas i Feiau. Nid yw yn dywedyd, Pwy ofod y Bai hwn, neu'r Bai arall yn eu herbyn? Ond pwy a rydd dim; a pha beth ddichon fod yn fwy cynhwysfawr? Yn awr, pa beth yw Sail y Gofyniad hyderus hwn? Cyflawnder Crist ydyw: Canys, medd yr Apostol, "Duw sy'n cyflawnhau, pwy yw'r hwn sy'n condemnio? Crist a fu farw, ie, yn hytrach a adgyfedd, &c.

Yr wyf yn dyfod yn yr Ail Le, i ddangos pa Ddedwyddwch ac Anrhydedd y mae yr Credadyn yn cael ei dderchafu iddynt trwy Rinwedd y Cyflawnder hwn. Ac ym mhliith llawer o Bethau ni chaf ond prin enwi y ddau neu'r tri Pheth neilltuol hyn. Ac yn

1. Y mae yn cael ei dderchafu trwyddo i Stat o Heddwch a Chymmodâ Duw, *Rhu.* 5.
2. "Gan ein bod wedi ein cyflawnhau trwy 'Ffydd, y mae gennym Heddwch tuagat "Dduw." Y mae Duw yn troi helbio bob Anfodlondeb o'i Galon yn erbyn yr Enaid sydd wedi ei wisgo ag ef. Yn

2. Y maent wedi eu derchafu trwy'r Cyflawnder hwn i Stat o Fabwyriad, "Fe wnaed "Crist tan y Ddeddf, fel y prynai y rhai "oedd tan y Ddeddf, fel y Derbyniem ni y "Mabwyriad, *Gal.* 4. 4, 5. Yn

3. I Stat o Gymdeithias a Chyfeillgarwch â Duw, a Dyfodfa at Dduw mewn Hyder duwiol, *Heb.* 4. 14. "Am hynny Frodor "gan fod i ni Rydd-did i fyned i mewn i'r "Cysegr trwy Waed Iesu, ar hyd Ffordd "newydd a bywiol, yr hon a gysegrodd efe

" i ni

" i ni
" i ni
" à Ch
Heb. 10
" Arch
" hynn
" Grâs
udd y C
Dad yn
ag y ga
niweidi

4. H
iant tra
dyweda
wolaeth
gweithi
hwn yw
ydym y
a'r Cyf
Law D

Pedw
Athraw
Defnyd
au neil

I A
Machn
chafu;
mae'r E
yn. Ys
maent
Duw,

" ngo
2. C
adyn
herwy

“ i ni trwy'r Llen, sef ei Gnawd ef; a bod
 “ i ni Offeiriad mawr ar dŷ Dduw, nesawn
 “ à Chalon gywir, mewn llawn Hyder Ffŷdd,
Heb. 10. 19, &c. “ Gan fod i ni y cyfryw
 “ Arch-offeiriad mawr ar Dŷ Dduw, am
 “ hynny awn yn hyderus at Orseddfaingc y
 “ Grâs, &c.” Fe all y Credadyn tan Orch-
 udd y Cyflawnder hwn nesau at Dduw fel ei
 Dad yn Nghrist gyda chymaint o Rydd-did
 ag y gallafai *Adda* erioed yn ei Stat o Ddi-
 niweidrwydd. **Yn**

4. Hwy gant eu derchafu i Stat o Ogon-
 iant tragwyddol yn y Diwedd. Canys fel y
 dywedais o'r blaen Pŵrcas Ufudd-dod a Mar-
 wolaeth Crist yw'r Nefoedd. A Ffŷdd yn
 gweithredu ar y Cyflawnder a'r Bodlondeb
 hwn yw Llwybr y Bywyd, trwy'r hwn yr
 ydym yn myned i'r Afonydd o Hyfrydwch,
 a'r Cyflawnder o Lawenydd sydd ar ddeheu
 Law Duw yn oes oesoedd. **Y**

Pedwarydd Peth oedd Cymwysiad yr
 Athrawiaeth. A'r Defnydd cyntaf, fydd
 Defnydd o Amlygiad, mewn ychydig o Beth-
 a'u neilltuol. **Yn**

1. Ai felly y mae? Mae mewn Cyflawnder
 Machniydd y mae'r Credadyn yn cael ei dder-
 chafu; gwelwn oddiyma, pa gyfrif bynnag y
 mae'r Bŷd yn ei wneuthur o honynt, eu cyfrif
 yn. Yscubion y Bŷd a Sorod pob dim, eto y
 maent yn Bobl anrhydeddus iawn ynghyfrif
 Duw, “ Er pan aethost yn wêrthfawr yn fy
 “ ngolwg, i'th anrhydeddwyd. **Yn**

2. Gwelwn oddiyma, nad oes gan y Cred-
 adyn ddim lle i ymffrostio. Pa ham? O
 herwydd mae nid yn ei Gyflawnder ei hun,

ond yn Nghyflawnder Crist y mae yn cael ei dderchafu, " Pale gan hynny y mae Gorfoddedd, medd yr Apostol ? y mae wedi ei gae Allan, trwy ba Ddeddf? Gweithredoedd, nag-e, ond trwy Ddeddf Ffydd, Rhuf. 3. 27. Fe trwy ein Gweithredoedd a'n Hufudd-dod ein hunain yr ydym yn cael ein derchafu, fe fuasai gennym ryw beth i ymffrostio o'i herwydd : ond gan mae yn ei Gyflawnder ef yr ydym yn cael ein derchafu, nid oes gennym ddim i ymffrostio o'i herwydd ynnom ein hunain. Y mae'r Apostol yn gosynn tri chwestiwn ag sydd ddigonol i ddifftewi pob Cnawd, ac i daro Cywiliyd tragwyddol ar bob Cnawd-ymffrostwyr, i Cor. 4. 7. " Pwy sydd yn gwneu " thur rhagor rhyngot ti ac arall ? A pha " beth sydd gennyt a'r na's derbyniaist ? Ac " o's derbyniaist, pa ham yr wyt ti yn gor- " foleddu, fel pe bait heb dderbyn ? Boed i'r rhai crediniol ofyn y cyfryw Gwestiynau neu'r cyffelyb Holiadau a'r rhai'n i'w Hendidiau, pan fyddo Balchder yn dechreu ymgodi o'u mewn. Yn

3. Gwelwn oddyma, pa **Rwymedigaeth** sydd arnom i'r Arglwydd Jesu ; iddo ef, er mae efe oedd y Deddfwr mawr, fodloni cymmeryd ei wneuthur tan y Ddeddf ; er ei fod yn Arglwydd y Bywyd, etto ymosiwn ei hun i Farwolaeth, i ddwyn i mewn y Cyflawnder hwnnw trwy'r hwn ein derchafir. Fe ymfodlonodd i gymmeryd ei gyfrif gyda'r Trofeddwyr, fel y byddai i ni i gael ein cyfrif gyda rhai cyflawn : fe ymfodlonodd i ddyfod yn Bechod, fel ein gwnelid ni yn Gyflawnder Duw : fe ymfodlonodd i ddyfod yn Felldith trofom

el ei
fol-
gae
ag-
Pe
ein
uas-
ld :
ya
m-
Y
ydd
aro
ost-
eu-
ba
Ac
or-
ed
au
n-
n-
th
er
a-
od
un
er
n-
r
if
od
er
h
n
trosom, fel y byddai i Fendith *Abraham* i orphwys arnom ni. O rhyfeddwn y Cariad hwn sydd uwchlaw Gwybodaeth ! Yn

4. Gwelwn yma Feddyginaeth rhagorol rhag Ysbryd Caethiwed ac Ofn. Ofn pa beth sydd arnat, O Gredadyn ? Yn wir os pechu, di elli ofni Gwialen dadol ; canys fe fydd iddo ymweled a'th Ganwedd a Gwialen-nodau, a'th Anwiredd a Ffrewyllau : ond o's wyt yn ofni Digofaint dialeddol, nid oes gennyt un Achos i wneuthur felly, *Luc* i. 74. Ymae wedi ein gwaredu o Ddwyllo ein Gel-ynion, fel y gallem ei wasanaethu ef yn ddi-ofn, hymny yw, yn ddi-ofn slafaidd, ac yn ddi-ofn Digofaint dialeddol. A wyt yn ofni Taran-au Mynydd *Sinai*, nid oes dim Achos i ti, fe fyrrhiodd y Demestl fawr ar ben dy Fach-niydd ; o herwydd pa ham di elli ganu, a dywedyd, *Esay* i2. 1. *Er it' sorri wrhyf, dych-zelir dy Lid, a thi a'm cyfuri.* A wyt yn ofni na chefi Ddysfodfa i Stafell ei Bresennoldeb ? Gwna Ddefnydd o'r Cyflawnder hwn trwy Ffydd, a thi gei weled y Ffordd i'r Cysegr sancteiddiolaf yn agored, a chais y Faner o Gariad wedi ei thaflu trofot. Pa bryd bynnag y bo'r Credadyn tlawd yn cymmeryd Cyflawnder y Machniydd yn llaw Ffydd, ac yn ei ddal i fynu ger bron Duw, fel Gwerth o Ddarpariad Duw ei hun, y mae mor fodlon iddo fel y mae ei Wg yn troi yn Wén, ei Sorriant yn Llawenydd. Mewn Gair, ni chei byth dy waredu oddiwrth Ysbryd Caethiwed hyd nes dyscech trwy Ffydd i ddefnyddio 'r Deddf-orchymwynnol Gyflawnder hwn ; ac yna yn wir di gei weled Ofnau a Dychrynn-

feydd deddfol yn diflannu ymmaith fel Tywyllwch Nos o flaen Cyfodiad Haul. Yr

Ail Defnydd, fydd Defnydd o Gerydd i'r holl rai hynny sy 'n ceisio derchafu eu hunain trwy Hunan - gyfiawnder, fel yr Iuddewon, Rhu.x.3. *Yn ceisio gosod i fynu eu Cyfiawnder eu hunain nid ymostyngasant i Gyfiawnder Duw.* Y mae rhai o Wrandaŵyr yr Efengyl yn derchafu eu hunain mewn Cyfiawnder neccaol : am nad ydynt cynndrwg ag eraill, yn euog o Bechodau cyhoeddus, megis Meddwdod, yn arfer tyngu a rhegu, a thorri 'r Sabath, o herwydd pa ham hwy gasclant fod pob peth yn iawn gyda hwynt. Ond Foneddigion, fe allasai 'r Phariseaid ymffrostio fel hyn ; ac fe allasai 'r Apostol Paul cyn ei Droedigaeth ddywedyd ei fod o ran y Ddeddf yn ddiargy-oedd : ac etto pan agorodd Duw ei Lygaid y mae yn profi ei hun tan Rwydiad Cyfiawnder canys, medd efe, " Pan ddaeth y Gorchymmyn, yr adfywiodd Pechod, a minnau a fum farw. Y mae eraill yn derchafu eu hunain mewn math o Gyfiawnder moesol ; nid ydynt yn unig yn peidio a gwneuthur Drwg, ond hefyd yn gwneuthur llawer o Bethau da o ran eu Defnydd : y maent yn sobr, yn gymmedrol, yn gyfiawn yn eu Masnach, yn haelionus i'r tlawd, yn Gymmydogion da heddychol, yn caru pawb, a phawb yn eu caru hwythau ; y maent yn cadw 'r Gorchymmynnion preu ag allont, a thyma 'r Sail ar ba un y satant. Ond mi allaf ddywedyd iddynt, fel ag y dywedodd Crist wrth y Gŵr ieuang, yr hwn a ddywedodd iddo, " Yr holl Bethau hyn a " gedwais o'm Ieuengctid, Un Peth fydd ddi- " ffigiol

" ffigiol i ti. O pa beth yw hwnnw medd-wch ? attebaf, cael eich dwyn oddiar Sail fûdr y Cyfammod Gweithredoedd ar ba un yr ydych yn sefyll. Y mae arnoch eisiau gweled eich hûnain yn feirwon ysbrydol mewn Cam-weddau a Phechôdau, eich bod yn feirwon deddfol tan y Ddeddf, wedi eich condemnio eisiaes, a Digofaint Duw yn aros arnoch. Y mae arnoch eisiau gweled nad yw eich holl Gyfiawnderau ond Brattiau budron, a'ch gwneuthur i ddywedyd gyda'r Eglwys, Yn ddiau yn yr Arglwydd y mae i mi Gyfiawnder a Nerth. Y mae eraill yn myned ymhellach na Moesoldeb noeth ; yn helaeth gyflawnu Dyledswyddau Crefydd, yn darllain, gwrando, gweddio, cymmuno, rhedeg o Bregeth i Bregeth, ac ar y Pethau hyn y maent yn gorhwyys. Y mae'r holl Bethau hyn yn dda yn eu priod le ; ond o's adeiladwch eich Gobaith am Jechydwriaeth arnynt yr ydych etto ar Sail y Cyfammod Gweithredoedd, yn ceisio Cyfiawnder trwy weithredoedd y ddeddf, a thra yr ydych yn gwneuthur felly, nid ydych ond ceisio 'r byw ymhîlith y meirw. Nid yw eich holl Weithredoedd ond Gweithredoedd meirwon, hyd nes byddoch yn Nghrist, ac nid ydynt ond fel gwag Luniau ynghyfrif Duw, hyd nes caffoch eich dwyn i ymosfwrng i'w Gyfiawnder ef, trwy 'r hwn yn unig y mae Pechaduriaid euog yn cael eu derchafu. Y mae eraill yn gorhwyys ar ryw Gyfiawnder cymmyscedig ; rhwydd gyfaddefant na all eu Dyledswyddau a'u Cyflawniadau byth eu derchafu i Ffafr a Derbyniad gyda Duw ; ond, meddant, Crist a'n Dyledswyddau ni a'i gwna, y mae

y mae yn rhaid i Crist a'n Gweddiau ni, Efe a'n Dagrau a'n Hedifeirwch ni wneuthur y tro: Ond Foneddigion, credwch y gwir, ni chyduna Crist a'r Euler o Hunan-ewyllys byth. Ni ellir byth iawn gydio'r hen Frattian budzon hynny a'r Wic wen, newydd honno o Gyfawnder Mab Duw; ac o's cymnigwch eu cyfylltu, Ni lesa Crist ddim i chwi, Gal. 5. 2.

Y mae eraill yn cymmeryd amnynt ymwrthod a'u holl Weithredoedd a'u Dyledfwyddau; ac yn cyfaddef a'u Geneuau mae trwy Ffîdd yng Nghrist yn unig y maent yn gobeithio cael derbyniad gyda Duw; ond er eu bod yn cyfaddef hyn a'u Geneuau, etto y mae eu Calonnau yn cryf llynw wrth y Cyfammod Gweithredoedd, nid ydynt erioed trwy'r Ddeddf, wedi marw i'r Ddeddf. A phan na wneilo dim arall mo'r tro, hwy wrant eu Gweithred eu hunain yn credu yn Gyfawnder i orphwys arno er eu cymmeradwyo gyda Duw; yr hyn nid yw ond ceifio Cyfawnder ynom ein hunain; lle os byth y cawn ein cyfawnhau ger bron Duw, y mae yn rhaid i ni ei gael yn yr Arglwydd Iesu, gan ddywedyd, *Yn ddo ef ein cyfawnheir, ac ynddo ef yn unig y gorfoeddron.* Y mae Ffîdd yn llwyr ddwyn yr Enaid o'i hunan; ie, y mae Ffîdd yn ymwrthod a'i Gwaith ei hun yn y Pwysgo Gyfawnhâd. Dymma rai ym mhli th amryw eraill o'r Stafelloedd a'r Llochesau oelwyddog y mae'r Diafol, a'n Calonnau drygionus ein hunain wedi eu dychymmygu, i'n cadw ni ymmaith oddiwrth Crist. Ond O Foneddigion! credwch y gwir, nid ydynt ond Amdeffynfeydd twyllodrus ac fe yscyba'r Cen-

llysc

llysc hw
trwy F
niydd a
Chym
Meldit
ac oddi
fendige
Duw,
Ddarl
Wela, o
yn eich
rhodiwa
Gwreia
hyn i a

Y T
felly y
dercha
wch a
Cyfaw

Y m
b'ech y
un An
Brioda
hoddeg
gyffwr
hebdi
i ddyv
daetho
iad, n
bron.

1. A
denni
Gweit
wedi
allan o

llysc hwy ymmaith. Nid oes dim ond gafach trwy Ffylld ar Waith a Marwolaeth y Mach-nydd a ddichon byth eich derchafu i Ffafri a Chymdeithias Duw; neu eich gwasedd rhag Meildith a Chondemniad y Ddeddf dorredig; ac oddieithr i chwi ymffoi at Gyrn yr Allor fendiged hon, yr unig Noddfa a ddarparodd Duw, se'ch andwyir byth; a chwi ellwch Ddarllain eich Barneigaeth, Efay 50. 11. Wela, o hwi oll y rhai ydych yn cynnew Tân, a yn eich amgylchu eich hunain a Gwrechion; rhodiwch wrth Lewyrch eich Tân, ac wrth y Gwrechion a gynneuasoch. O'm Llau y bydd hyn i chwi, merun gofici y Garweddwr.

Y Trydydd, fydd Defnydd o Brofiad. Ai felly y mae, mae yn Nghyflawnder Crist ein derchafu? O gan hynny, Feistriaid, profwch a ydych wedi eich gwir dderchafu trwy'r Cyflawnder hwn.

Y mae mwya o achos i edrych at hyn pan b'ech yn ymnefau at Fwrdd yr Arglwydd nac un Annfer, y Cyflawnder hwn yw'r Wisc-Briodas heb yr hon ni ellwch fed yn Wahoddegion groefawgar. Ac os cynnigwch gyffwrdd ag Arwyddion Corph a Gwaeid Crist hebdi, goch ellwch rhag i Arglwydd y Wledi i ddywedyd wrthych, Y Cyfaill po fodd y daethost ti ymma heb y Wisc-briodas? Er Profiad, mi osodaf ddau neu dri o Bethau ger bron.

1. A welafoch eich hunain wedi eich condemni trwy'r Ddeddf, neu'r Cyfammod Gweithredoedd? Y mae pob Dyn wrth Natur wedi ei gondemnio eisioes, cyhyd ag y bo allan o Crist, Ya awr, y Fförd gysfredin y mae

mae Duw yn gymmeryd i ddwyn Enaid ethol-
edig at Grifft, a than Gyscod ei Gyfiawnder
ef, yw dadcuddio iddo ei fod tan Farn Con-
demniad, o herwydd torri Cyfraith: fel hyn
y mae yn palmentu ei Ffordd tuagat dderbyn
Crifft fel yr *Arglwydd ei Gyfiawnder*. Fel hyn
y mae'r Ddeddf yn Athro i arwain Dŷn at
Grifft fel y cyfiawnheir ef trwy Ffŷdd. Y mae'r
Arglwydd yn arwain y Pechadur i Fynydd
Seion heibio Odrau Mynydd *Sinai*: Gwaith
cyntaf yr Ysbryd yw argyhoeddi o Bechod, a
chwed'yn o Gyfiawnder.

2. A ydyw Duw wedi dadcuddio'r Mach-
niydd, a'i Gyfiawnder ef i ti? A gafodd dy
Enaid Orphwysfa ynddo? Fe allai fod y
Ddeddf a'i Melldithion, Cyfiawnder a Digo-
faint yn ymlid ar dy ol; fel na's gellit gael un
Twll i guddio dy Ben, pob Noddfa yn pallu:
o'r Diwedd fe dynnodd yr *Arglwydd* y Llenn
o'r naill du ac a ddadcuddiodd i ti ei Gyfi-
awnder ei hun yn wir Noddfa i ti, gan
ddywedyd, *Tro i'r Amddiffynfa: ti Garchoror*
gobeithiol, ac yno rhedaist fel i Ddinas Noddfa
gadarn, gan ddywedyd, *Dymma fy Nhrigfa,*
ymma y gorffuysaf. Yn fuan, pan delo hyn
i ben, y mae Nefoedd fechan o Dawelwch, a
Llawenydd yn llanw'r Enaid; fel pe b'ai bos-
sibl fe wnai i'r Nefoedd a'r Ddaear seinio o
Haleluiau o Fawl i Dduw am ei anrhaethawl
Rodd. O Gredadyn, onid wyt i'th felus
Brofiad yn gwybod rhyw beth am hyn? Y
mae hyn yn dywedyd dy fod wedi dy dderch-
afu yn ei Gyfiawnder ef.

3. Pan bo Duw wedi saethu Piccell o Ar-
gyhoeddiad i'th Gydwybod nes cythryblu dy
Heddwch

Heddw
rhedeg
Dŷn
am Jac
Peth
rau, a
au ei
ddich
Taene
yn uni
oes un
Jacha
hwys
4. Gyfi
Sanct
a Gŵ
Gras
i gym
hau tr
un pr
trwy
neu
glwyd
Rhan
casod
aeth,
troforn
wired
ol ar
iawn
yn L
gan
San
a thi

Heddwch a'th Lonyddwch, i ba le yr wyt yn rhedeg am Jachâd a Gwaredigaeth? Y mae'r Dyn sy'n briod a'r Ddeddf yn rhedeg atti hi am Jachâd a Gwaredigaeth; y Ddeddf yw'r Peth sy'n ei iachau ef; ei Weddiau, ei Ddagrâu, a'i Ddiwygiad yw'r Peth sy'n cae Genau ei Gydwybod ef; ond am y Credadyn, ni ddichon ef byth orphwys y tu yma i Waed y Taenelliad; tan Escyll Haul y Cyfiawnder yn unig y mae yn cael Meddyginaeth. Nid oes un Balm, ond y Bâlm o Gilead yn rhoi Jachaâd iddo ef, ac ni all un Llaw ei gymhwys ond y Phyfgywr sydd yno.

4. O's ydych wedi eich iawn dderchafu trwy Gyfiawnder cyfrifol, yr ydych am wir gynnal Sancteiddrwydd efangylaidd. Cyfeiliornad, a Gŵyrdroad ofnadwy o'r Efengyl, a throi Gras ein Duw i Drythyllwch, yw i Ddynion i gymmeryd arnynt eu bod wedi eu cyfiawnhau trwy Haeddiant Crist, pan y maent ar yr un pryd yn ddi bris am gael eu sancteiddio trwy Ysbryd Crist. Y mae Sancteiddrwydd neu Waredigaeth o tan Awdurdod ac Arglwyddiaeth Pechod yn Rhan, ac nid yn Rhan fechan o'r Jechydwriaeth honno a bwrcasodd Crist trwy ei Ufudd-dod a'i Farwolaeth, Tit. 2. 14. *Yr hwn a'i rhoddes ei hun trosgom, i'n prynu ni i Dduw oddiwrth bob Anwedd, ac i'n puro ni iddo ei hun yn Bobl briodol awyddus i Weithredoedd da.* Y mae Cyfiawnhad a Sancteiddhad yn bythol fyned Law yn Llaw, fe wnaed yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn Gyfiawnder, hefyd i ni yn Sancteiddrwydd; yn Enw yr Arglwydd Jesu a thrwy Ysbryd ein Duw ni yr ydys yn ein

cyflawnhau, ac yn ein sancteiddio ni. Profwch eich hunain gan hyunny, a ydych wedi eich iawn dderchafu trwy'r Cyflawnder hwn? A ydych wedi eich gwaredu o tan Arglwyddiaeth Pechod? O'r hyn Heiaf a ydych wedi eich gwaredu mor balled ac y mae wedi dyfod yn Faich i chwi? A ydych yn gruddfan tano fel ac y mae'r Apostol yn dywedyd, *Ystruan o Ddyn ydwyf fi, a phwy a'm gwared i oddiwrth Gorph y Farwolaeth hon?* Y

Pedwarydd Defnydd, fydd Defnydd o Gysur ac Annogaeth i'r rhai credinol, sy wedi cael eu derchafu trwy'r Cyflawnder hwn. Trwy ei Rinwedd, O Gredadyn, y mae gennyt Hawl i ba beth bynnag fydd bosibl i fod yn eisiau arnat. Pa beth bynnag o Râs a Thrugaredd ag fydd yn eisiau arnat, ti a'i cai, o's gwnai Ddefnydd o'r Cyflawnder deddf-orchymynnol hwn. A oes arnat eisiau'r Gras o Faddeuant i dynnu ymaith Euogrwydd Pechod? Dyna un o Roddion Duw trwy'r Cyflawnder hwn, yn cael ei roddi trwy Ffydd; canys " Yr hwn a osododd efe yn Iawn trwy " Ffydd yn ei Waed i ddangos ei Gyflawn- " der sef Maddeuant Pechodau. A oes arnat eisiau cael dy Heddwch â Duw wedi ei sicrhau? Gwna Ddefnydd o'r Cyflawnder hwn trwy Ffydd; " Gan ein bod wedi ein cyflawnhau " trwy Ffydd, y mae gennym Heddwch tu- " agat Dduw trwy ein Harglwydd Jesu Grist. A oes arnat eisiau Dyfodfa i'r Cyfegr? Trwy Ffydd yng Waed Jesu y mae i ni Ddyfodfa hyderus. A oes arnat eisiau meddyginaethol Râs, i iachau holl Blaau dy Enaid? Gwna Ffydd Ddefnydd o'r Cyflawnder hwn, trwy ei Gleisiau

Gleis
yr All
hwnn
dig m
chreu
hwn
eisiau
blined
Lîd,
Defny
Gyfgo
Craig
eisiau
dwys
tan y
Hyde
fy erby
newya
ia'r C
ei U
Crist
Gwae
ech y
Cyfan
sicrh
trwy
at F
fyn p
Tad
dyfod
Rinw
Hawl
a Thr
Hawl
wyd,

Gleisiau ef ein hiachawyd ni. Oddi tan Ystlys
 yr Allor efangylaidd hon y mae'r Dwfr bywiol
 hwnnw yn rhedeg ag sy'n iachau'r Môr Lygredig
 marw o Lygredd tufewnol, *Esec. 47.* Dechreuad.
 Dyma 'r Pren y Bywyd, Dail y
 hwn sy'n iachau y Cenhedloedd. A oes arnat
 eisiau Cyscod neu Orchudd i guddio dy Enaid
 blinedig tano rhag Gwres lloscadwy'r dwysol
 Lîd, Profedigaeth Diafol, neu Drallod y Byd?
 Defnyddia'r Cyflawnder hwn, ac eisted tan ei
 Gyfgod. Y mae'r Cyflawnder hwn fel Cyscod
 Craig fawr mewn Tîr sychedig. A oes arnat
 eisiau Calon i edrych y Ddeddf neu Gyflawnder
 dwysol yn ei Wyneb? dyma Sail i ti; canys
 tan y Cyscod hwn ti elli edrych allan gyda
 Hyder; gan ddywedyd, *Pwy a rydd dim yn
 fy erbyn?* A oes arnat eisiau cael y Cyfammod
 newydd wedi ei siccrhau i'th Enaid? defnyddia'r
 Cyflawnder hwn trwy Ffydd, canys trwy
 ei Ufudd-dod a'i Farwolaeth fe siccrhaodd
 Crist y Cyfammod a llawer. Ei Waed ef yw
 Gwaed y Testament newydd, a phan y bydd-
 ech yn ymaflyd ynddo trwy Ffydd y mae 'r
 Cyfammod o Râs y funud honno yn cael ei
 siccrhau i ti byth bythoedd. Mewn Gair,
 trwy Rinwedd y Cyflawnder hwn ti elli ddyfod
 at Fwrdd y Cymmun, a Gorsedd Gras, a go-
 fyn pa beth bynnag fynnech, ac ni all ein
 Tad nefol ballu dim i'r Brodur ieuangaf sy'n
 dyfod atto yng Wisc eu Brawd hynaf. Trwy
 Rinwedd y Cyflawnder hwn ti elli gleimio
 Hawl i bob Peth, i holl Fendithion y Nefoedd
 a Thragwyddoldeb: er i ti yn wir golli dy
 Hawl yn yr *Adda* cyntaf, ond fe a'i hadfer-
 wyd, ac fe a'i sefydlwyd i ti ar well Seilfaen,

sef ar Ufudd-dod a Marwolaeth yr ail *Adda* ;
ac yr wyt wedi dyfod i mewn ar ei Hawl a'i
Haeddiant ef. A ddichon yr holl Bethau
hyn ddim adfywio dy Enaid lluddedig ? A
gwneuthur i ti ganu'r Gân gynnwysedig yn
y Testyn ? *Yn dy enw di y gorfoeddaf beun-*
ydd, ac yn dy Gyfiauunder yr ymdderchafas.

D I W E D D.



Hysbysiad.

FOd dwy Bregeth i gael eu Hargraphu a'u
Cyhoeddi ar frys ar Lythyren newydd, a
Phapur da, wedi eu gwnio yn un Llyfr, Pris
Chwe Cheiniog. Y gyntaf,

Crist ym Mrechiau'r Credadyn, &c.

Ar L U C II. 28.

Gan y Parchedig *Ebenezer Erskine, M. A.*

Yr A I L,

Dadl Ffydd ar Air a Chyfammod Duw,

Ar S A L M LXXIV. 20.

Gan y Parchedig *Ralph Erskine, M. A.*

Lle gellir mael hafyd ar fyrder,

Y Llaw-lyfr rhagorol hwnnw, a elwir,

Diferyn dewisol o Fêl o'r Graig Crist,

Wedi enargraphu ar Lythyren newydd o fwy
Maintioli na'r Argraphiad diweddar.

da;
l a'i
hau
A
yn
un-

2

a'u
i, a
Pris

3c.

A.

da
uW,

..

ir,
rift,
fwy